Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	23-11-2022
LLEOLIAD:	Cyfarfod Hybrid/ rhithiol
TEITL:	Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 a Chynllun Llesiant Lleol Drafft Ceredigion ar gyfer 2023-28.
DIBEN YR ADRODDIAD:	Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ystyried Cynllun Llesiant Lleol Drafft 2023-28 ar gyfer Ceredigion a chraffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

CEFNDIR:

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob BGC anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

CYNLLUN LLESIANT LLEOL DRAFFT AR GYFER 2023-28

Mae'r canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal heb fod yn hwyrach na blwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei Gynllun Llesiant Lleol. Mae'r canllawiau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cynllun Llesiant Lleol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl pob etholiad llywodraeth leol cyffredin.

Cyhoeddodd BGC Ceredigion ei Asesiad o Lesiant Lleol ar 4 Mai 2022 ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2022. Mae'r Asesiad o Lesiant Lleol wedi bod yn allweddol wrth lywio a sefydlu'r pedwar Amcan Llesiant Lleol y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y BGC ar 7 Mawrth 2022 ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin. Yr amcanion hyn fydd yn sail i Gynllun Llesiant Lleol nesaf Ceredigion.

Y pedwar Amcan Llesiant Lleol yw:

1. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac yn adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
2. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
3. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
4. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cytunwyd hefyd y byddai amcan trawsbleidiol i fynd i'r afael â chaledi a thlodi yn cael ei ymgorffori yn y cynllun i adlewyrchu goblygiadau'r argyfwng costau byw yn awr ac yn y dyfodol. Cydnabyddir y bydd gan hyn y potensial i gael effaith ar draws y pedwar piler lles – lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a bydd gweithio gyda'n gilydd ar draws sefydliadau'r BGC yn helpu i gynnal ffocws ar y maes gwaith hwn.

Datblygwyd cynnwys y Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer 2023-28 drwy arolygon wyneb yn wyneb ac arolygon ar-lein, mewnbwn gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Cymeradwyodd y BGC Gynllun Llesiant Lleol drafft Ceredigion ar gyfer 2023-28 yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, ac yn amodol ar fân ddiwygiadau, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal arno am 12 wythnos; gan ddechrau ar 7 Tachwedd 2022 a dod i ben ar 29 Ionawr 2023.

Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hystyried a'u bwydo i mewn i Gynllun Llesiant Lleol terfynol Ceredigion, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r BGC yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2023. Bydd yn ofynnol wedyn i'r holl sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC gymeradwyo'r cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y BGC roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r cynllun ym mis Ebrill 2023.

Hwn wedyn fydd prif gynllun gwaith a ffocws BGC Ceredigion yn y dyfodol a bydd y Pwyllgor Craffu hwn yn craffu ar ei berfformiad.

COFNODION CYFARFOD BGC CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 20 MEDI 2022.
Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 i'r Pwyllgor ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1**.

CYNLLUN LLESIANT LLEOL DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION AR GYFER 2023-28.
Cyflwynwyd a chymeradwywyd y Cynllun yng nghyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 yn amodol ar fân newidiadau, a gellir gweld hyn yn **Atodiad 2**.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam	Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau ar gyfer fersiwn derfynol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**	

ARGYMHELLION:

i. **Derbyn cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022**

ii. **Derbyn Cynllun Llesiant Lleol drafft Ceredigion ar gyfer 2023-28 ac ystyried pa adborth, os o gwbl, yr hoffai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ei roi yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ar y Cynllun.**

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Enw Cyswllt:	Alun Williams
Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Dyddiad yr Adroddiad:	23-11-2022
Acronymau:	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)